cerdd
ADDYSG GERDD CAERDYDD A'R FRO
cf music
CARDIFF & VALE MUSIC EDUCATION

Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru
National Music Service Wales

CARDIFF
CAERDYDD

# CODI LLAIS

## Codi Lleisiau Ledled Caerdydd

Adroddiad Terfynol - Gwanwyn 2026




Yn ystod gwanwyn 2026, cyflwynodd Addysg Gerdd CF, gyda chefnogaeth Cyngor Caerdydd a Chynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth Llywodraeth Cymru, brofiad unigryw a bythgofiadwy i berfformwyr ifanc yng Nghaerdydd. Ers lansio'r prosiect ym mis Chwefror, roedd ystafelloedd dosbarth, neuaddau a meysydd chwarae yn llawn canu wrth i dros 10,000 o ddisgyblion ddod o hyd i'w lleisiau trwy Codi Llais - un o'r prosiectau cerddoriaeth ieuenctid mwyaf a lwyfannwyd erioed yn y ddinas. Yn yr adroddiad terfynol hwn, byddwch chi'n darganfod beth a gyflawnwyd, yr heriau a'r gwersi a ddysgwyd ar hyd y ffordd, yr effaith, a'r etifeddiaeth sy'n parhau.

www.cfmusiceducation.co.uk
cfmusiceducation@cardiff.gov.uk

Cardiff and Vale Music Education/Addysg Gerdd Caerdydd A'r Fro
@cerddcf



# Dinas yn dod at ei gilydd mewn cân

"Wel - 'am noson' fel maen nhw'n dweud! Digwyddiad gwirioneddol broffesiynol, slic, wedi'i drefnu'n dda gyda cherddoriaeth a lles yn ganolog i'r cyfan." - Mari Pritchard - Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol Cymru.

**Man cychwyn y prosiect oedd defnyddio pŵer cerddoriaeth i gefnogi magu hyder gyda llefaredd a llythrennedd, gan annog plant nid yn unig i ddod o hyd i'w lleisiau, ond i'w codi.**

**Yn ei hanfod, roedd 'Codi Llais - Caerdydd' yn fwy na pherfformiad, roedd yn ymwneud â hyder, creadigrwydd, perthyn - a phŵer llais cyfunol. Ar 15 Ebrill 2026, camodd dros 1,300 o bobl ifanc ar y llwyfan yn Arena Utilita Caerdydd ar gyfer perfformiad byw ysblennydd - llawer ohonynt yn profi eiliad fel hon am y tro cyntaf. Golau ymlaen. Teimlo'r curiad. Dinas yn canu fel un.**

# TAITH Y PROSIECT A CHERRIG MILLTIR ALLWEDDOL


**O'r ystafell ddosbarth i'r arena, dyma sut y datblygodd Codi Llais ar draws y ddinas – gan gyrraedd dros 10,000 o ddisgyblion a gorffen gyda pherfformiad bythgofiadwy.**

| Carreg Filltir | Manylion | Dyddiad | Effaith |
|---|---|---|---|
| Lansio'r Rhaglen | Dechreuodd ymarferwyr lleisiol Addysg Gerdd CF weithio mewn ysgolion ledled Caerdydd | Medi - Tachwedd 2025 | 48 o ysgolion wedi ymgysylltu, 10,000+ o ddisgyblion wedi'u cyrraedd trwy fynediad at yr adnoddau |
| DPP Athrawon ac Adnoddau wedi eu Datblygu | Adnoddau dwyieithog a datblygiad proffesiynol wedi'u darparu am ddim | Medi 2025 - Ebrill 2026 | Athrawon wedi'u cefnogi gyda hyfforddiant a sesiynau briffio ar-lein - wedi ennill hyder i ymgorffori canu ym mywyd yr ysgol |
| Gweithdy Ysgrifennu Caneuon | Cyd-greodd y disgyblion Anthem Codi Llais gydag artistiaid proffesiynol | Chwefror 2026 | Cân wreiddiol sy'n adlewyrchu themâu hunaniaeth, hyder a pherthyn |
| Digwyddiad Lansio | Ymunodd yr Aelod Cabinet dros Addysg- Sarah Merry â Bronwen Lewis a'r disgyblion i lansio Cân Codi Llais a chyhoeddi tocynnau ar gyfer y perfformiad terfynol | Chwefror 2026 | Lansio brand a logo'r prosiect trwy ddatganiad i'r wasg a'r cyfryngau cymdeithasol |
| Perfformiad yn yr Arena | 1,300 o bobl ifanc yn perfformio yn Arena Utilita Caerdydd | 15 Ebrill 2026 | Profiad sy'n newid bywyd i lawer; dathliad ledled y ddinas |
| Rhyddhau Adnoddau Etifeddiaeth | Rhyddhau'r Anthem ar Spotify a Charanga Cymru | Mehefin 2026 | Effaith barhaol y tu hwnt i'r digwyddiad; hygyrch i ysgolion ledled Cymru |

# DATHLIAD LEDLED Y DDINAS I GYD





Cyrhaeddodd Codi Llais bob cwr o Gaerdydd, gan ddod â chynrychiolwyr o 48 o ysgolion ynghyd gyda 26 o ysgolion yn rhan o'r perfformiad terfynol. Roedd y cyfranogwyr yn dod o gymunedau amrywiol a lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae'r ysgolion wnaeth gymryd rhan ar y cyd yn gwasanaethu poblogaeth amrywiol iawn a chymysg yn economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys ardaloedd o gyfoeth sylweddol a rhai o'r cymunedau â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Gyda thros chwarter y preswylwyr o gefndiroedd ethnig amrywiol a thua un o bob pump o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, roedd ehangder y cyfranogiad yn ganolog i weledigaeth y prosiect: sicrhau tegwch mynediad, adlewyrchu amrywiaeth Caerdydd, a chreu ymdeimlad gwirioneddol o brofiad diwylliannol a rennir.




**Saesneg fel iaith ychwanegol**

**Grŵp Ethnig**




**Rhaniad PYADd**

## Am ddim ar adeg ei ddefnyddio

Cynigiwyd y prosiect yn rhad ac am ddim i bob ysgol ledled Caerdydd, diolch i gefnogaeth Cyngor Caerdydd a Chynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth Llywodraeth Cymru, gan ymgysylltu â phlant rhwng blynyddoedd 5 a 9. Roedd hyn yn cynnwys adnoddau canu ac ysgrifennu caneuon, DPP ar-lein i athrawon, ac ymweliadau ysgol pwrpasol gan ymarferwyr lleisiol Addysg Gerdd CF. Cafodd pob ysgol fynediad at adnoddau waeth beth fo'u gallu i gymryd rhan yn y perfformiad terfynol, a darparwyd tocynnau wedi'u hariannu'n llawn i blant o deuluoedd incwm isel, gan leihau rhwystrau i gymryd rhan.



# 26 O YSGOLION, UN LLAIS

### Gorllewin Caerdydd

- Ysgol Gyfun Radur
- Ysgol Gynradd Radur
- Ysgol Gynradd Pentyrch
- Ysgol Gynradd Danescourt
- Ysgol Gynradd Bryn Deri
- Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth
- Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
- Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

### Gogledd a Chanol Caerdydd

- Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd
- Ysgol Gynradd Yr Eglwys Newydd
- Ysgol Gynradd Llwynbedw
- Ysgol Gynradd Llanisien Fach
- Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-graig
- Ysgol Gynradd Lakeside
- Ysgol Melin Gruffydd
- Ysgol y Wern

### Dwyrain a De Caerdydd

- Ysgol Bro Edern
- Ysgol Gynradd Llanedern
- Ysgol y Berllan Deg
- Ysgol Glan Ceubal
- Ysgol Gynradd Parc y Rhath
- Ysgol Gynradd Lansdowne
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Santes Fonica
- Ysgol Uwchradd Cantonian
- Ysgol Gynradd Pencaerau
- Ysgol Gynradd Gatholig Sant John Lloyd

# Anthem Codi Lais: Cân a ysgrifennwyd gan leisiau Caerdydd

Yn ganolbwynt i'r prosiect roedd rhywbeth arbennig iawn - darn gwreiddiol o gerddoriaeth wedi'i greu gyda disgyblion, ar gyfer disgyblion. Ym mis Chwefror, gwahoddwyd myfyrwyr i'r stiwdio yn Chapter ar gyfer gweithdy ysgrifennu caneuon pwrpasol. Dros bythefnos buont yn gweithio ochr yn ochr â Bronwen Lewis i lunio geiriau dwyieithog, alaw a syniadau, gan archwilio themâu hunaniaeth, hyder, hunanfynegiant a pherthyn.



*'Roedd yn teimlo'n anhygoel gwybod bod rhywbeth wnaethon ni helpu i'w ysgrifennu yn cael ei ganu gan bawb yn yr arena - roedd yn gwneud i fi deimlo'n falch iawn.'* – Disgybl wnaeth gymryd rhan





Pan berfformiwyd yr anthem yn yr arena, daeth yn fwy na dim ond cân. Daeth yn llais a rennir - eiliad o gysylltiad rhwng cannoedd o bobl ifanc ar y llwyfan: 'Codwch eich llais, gadewch i'r byd i gyd glywed, Rydyn ni'n gryfach pan fyddwn ni'n canu gyda'n gilydd.' Ers hynny, mae Bronwen wedi gwahodd corau Hŷn ac Iau Addysg Gerdd CF i berfformio ochr yn ochr â hi ar ei thaith am brofiad bythgofiadwy arall.






"Rwy'n gwybod bod y plant wedi mwynhau bod yn rhan o'r prosiect hwn yn fawr iawn, lle gallant ddathlu bod yn Gymry, a gweld y gellir cyfieithu caneuon Saesneg i'r Gymraeg, a chaneuon maen nhw eisoes yn eu hadnabod. I'r merched a oedd yn rhan o ysgrifennu'r gân gyda Bronwen Lewis, mae gweld rhywun sydd wedi gwneud bywoliaeth o ysgrifennu a chanu yn y Gymraeg wedi eu helpu i feddwl am eu dyfodol, a chodi hyder, a mwynhau perfformio, gyda llwyth o blant o bob cwr o Gaerdydd." - Athrawes dosbarth, Ysgol Gynradd Melin Gruffydd

**"Diolch i chi am ysbrydoli fy mab i ganu a bod yn rhan o Codi Llais. Roedd wrth ei fodd â'r gweithdai yn yr ysgol a pherfformio caneuon roc a phop mewn harmoni dwy ran ar y llwyfan—roedd yn brofiad gwirioneddol anghofiadwy ac fe wnes i grio wrth ei wylio'n canu ac yn dawnsio gyda'i ffrindiau. Dylai CF Music fod yn hynod falch! A fydd hwn yn ddigwyddiad blynyddol?" - Rhiant**





**"Rwy'n gyffrous iawn i weld Bronwen Lewis yn canu'r gân y cyfrannais ati!"**
**- Disgybl**

# DOD O HYD I'N LLEOLIAD A DATBLYGU PARTNERIAETHAU NEWYDD



Un her enfawr o ddechrau'r prosiect oedd dod o hyd i leoliad fyddai'n cyd-fynd â'r uchelgais ond yn caniatáu i ni gadw'r profiad mor gynhwysol â phosibl. Nid yw acwsteg sy'n addas ar gyfer canwr a band roc yr un peth ag acwsteg sy'n addas i gôr mawr o blant. Gyda Neuadd Dewi Sant yn dal i gael ei hadnewyddu, roedd yr opsiynau o ran y capasiti angenrheidiol yn ogystal â'r hyn oedd yn briodol i blant a theuluoedd ifanc yn her.



Yn y pen draw, nodwyd bod Arena Utilita Caerdydd yn opsiwn cryf, ond roedd yn golygu bod y gwasanaeth cerdd yn mynd i faes dieithr o ran y logisteg sy'n mynd i gynnal digwyddiad ar y fath raddfa. Roedd yn rhaid canfod a chaffael pob agwedd ar y sain, y golau, y llwyfannu a'r cynhyrchiad a rheoli'r prosiect cyn hynny ac ar y diwrnod.
Dechreuwyd adeiladu'r elfennau hyn am 5.00am gyda chriw o 40, a dwy lori gymalog o offer yn cyrraedd i ddechrau cydosod yr adeiledd, oedd angen bod yn barod i groesawu 1300 o blant, artistiaid gwadd a band roc erbyn amser cinio.

Cefnogodd staff Utilita a Pete, y rheolwr cyffredinol, ni drwy gydol y dydd, gan ein tywyd drwy'r bysus yn cyrraedd, mynediad cefn llwyfan, cyfarwyddiadau diogelwch ac arolygiad gan drwyddedu plant (gyda llwyddiant ysgubol!).

# Y tu ôl i bob sioe roc wych...

Her fawr arall oedd dod â grŵp mor fawr o berfformwyr oedd erioed wedi canu gyda'i gilydd, na pherfformio mewn arena, ynghyd mewn un ymarfer. Hollol hanfodol i lwyddiant hyn oedd cael uned 'gyfeilio' gadarn iawn. Cyflawnwyd hyn drwy ddefnyddio sgiliau anhygoel cerddorion a chynhyrchiad sain a golau gan gerddorion 'Ultimate Classic Rock Show', trwy ein cysylltiad â Luke Bradshaw, ein Prif Gitarydd.



Roedd y gwaith sylfaenol wedi'i wneud o ran paratoi a chynhyrchu'r traciau ymarfer, ac ymarferion cyn y sioe yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer yr ymarferion a'r sioe, oedd yn golygu ein bod, o guriad cyntaf y drwm, yn gwybod bod popeth mewn dwylo diogel ac y gallai'r bobl ifanc ymlacio a mwynhau eu hunain.




**Yn cymryd rôl y canwr cefndir ac weithiau'r prif leisydd oedd ein pedwar canwr Aled Powys Williams, Hollie Clarke, Pete Hughes a Clare Watkins, a berfformiodd nid yn unig fel unawdwyr ar y noson, ond a brofodd allu'r ysgolion yn ystod yr wythnosau lawer cyn y prosiect.**

**Roedden nhw'n gyfrifol nid yn unig am ddarparu arweiniad cryf i'r plant ei ddilyn ond hefyd am eu diddanu a'u cadw'n egnïol trwy gydol yr hyn oedd yn ddiwrnod hir i rai (er na fyddech wedi meddwl hynny o ystyried yr egni yn yr ystafell, oedd yn dal i fyrlymu yn hwyr y nos).**

# GWEITHIO GYDAG ARTISTIAID LLEOL O GYMRU A CHREU GYDA HYDER



Un o uchafbwyntiau'r prosiect oedd cyfranogiad yr artistiaid blaenllaw o Gymru, Bronwen Lewis, Shellyann, a Mike Doyle. Daeth eu presenoldeb ag egni, proffesiynoldeb ac ysbrydoliaeth - gan droi'r perfformiad yn rhywbeth gwirioneddol fythgofiadwy. Ond yn bwysig, nid oedd hyn yn ymwneud â gwylio artistiaid yn perfformio yn unig, roedd yn gyfle i weithio gyda nhw, dysgu oddi wrthyn nhw, a chreu gyda nhw.

**Yn ystod y sioe, soniodd Shellyann, a gyrhaeddodd rownd derfynol Y Llais, am y ffordd y byddai'n breuddwydio am berfformio mewn lleoliad fel Utilita, ac na ddylai'r bobl ifanc sy'n perfformio heno fyth roi'r gorau i ddilyn eu breuddwydion.**



'Roedd gweithio gyda'r bobl ifanc yn gymaint o ysbrydoliaeth. Fe wnaethon nhw gynnig gonestrwydd, creadigrwydd ac egni - ac roedd yn bwysig bod eu lleisiau yn ganolog i'r gân.' – Bronwen Lewis



'Noson anhygoel o dalent pur, roedd y plant mor dalentog, lleisiau mor wych. Roedd yn bleser ac yn anrhydedd i fod yn rhan o Codi Llais.' – Mike Doyle

# GWELEDIGAETH ARTISTIG A CHYFARWYDDYD






**Liz Williams, Arweinydd y Prosiect**
Fy ngweledigaeth oedd dangos pŵer y llais wrth lunio nid yn unig ddysgu, ond hefyd ymdeimlad cryf o berthyn a lles yn ein hysgolion. Yn ganolog i hyn oedd cyflwyno gweithdai lleisiol ysbrydoledig, ochr yn ochr â hyfforddiant a datblygiad athrawon ystyrlon wedi'u halinio â Chwricwlwm Cymru. Sicrhaodd y dull dwyieithog fod y cynnwys yn teimlo'n ddilys, yn gynhwysol, ac yn hygyrch i bawb. Cipiodd ein cân Codi Llais, a ysgrifennwyd ar y cyd gan Bronwen Lewis a'n disgyblion, ysbryd y prosiect yn berffaith—yn dathlu hunanwerth, hunaniaeth, a gweledigaeth a rennir.

Roedd gweld y cyfan yn dod at ei gilydd ar y diwrnod, mewn gig roc llawn egni, yn anghofiadwy—roedd yn teimlo'n enfawr ac yn rhyfeddol o agos atoch, wedi'i deilwra'n berffaith i anghenion ein disgyblion a'n hysgolion. Roedd awyrgylch cymunedol go iawn yn yr arena, wedi'i gefnogi drwyddi draw gan ymroddiad ac anogaeth athrawon a rhieni.

Rwyf wedi fy llethu gan y negeseuon gan ysgolion a theuluoedd, yn tynnu sylw at gynhwysiant y profiad a'i effaith gadarnhaol ar eu plant - yn gofyn a allant wneud y cyfan eto'r flwyddyn nesaf! Rwy'n gwbl gyffrous ac yn hynod falch o bawb a gymerodd ran. Diolch o'r galon.

**Gyda diolch i Liz Williams a'n tîm o diwtoriaid lleisiol a gyflwynodd oriau o sesiynau mewn ysgolion i helpu disgyblion i baratoi ar gyfer y digwyddiad.**

# AR ÔL Y PROSIECT

**Etifeddiaeth Barhaus**
Mae'r Anthem yn parhau i fyw trwy gael ei ryddhau ar Spotify ac fel adnodd cwbl ddwyieithog ar Charanga Cymru, gan gefnogi addysgu a dysgu ledled Cymru. Gall ysgolion barhau i ddefnyddio'r gân, gall disgyblion ailymweld ac ailgysylltu â'r profiad, ac mae'r effaith yn parhau ymhell ar ôl y nodyn olaf.

**Effaith go iawn: Mwy na Cherddoriaeth**
Roedd effeithiau Codi Llais yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r perfformiad. O'r cychwyn cyntaf, gweledigaeth tîm Addysg Gerdd CF oedd nid yn unig y gerddoriaeth, ond y pŵer sydd gan gerddoriaeth i uno a datblygu hyder a chymunedau.

Hyder: Roedd disgyblion oedd yn amheus ar y dechrau yn sefyll yn hyderus ar lwyfan mawr

Perthyn: Daeth pobl ifanc yn rhan o rywbeth mwy - cymuned ledled y ddinas

Datblygiad Athrawon: Datblygodd athrawon sgiliau, adnoddau a hyder i gynnal canu yn eu hysgolion

Ehangu Gorwelion: I lawer, dyma oedd eu tro cyntaf mewn arena - gan greu atgofion i bara am oes







"Roedd hwn yn ddigwyddiad rhagorol. Diolch yn fawr iawn am y cyfle i'n disgyblion!"

Mae'r ymateb i Codi Llais wedi bod yn hynod bwerus. Roedd rhieni, athrawon, arweinwyr - ac yn bwysicaf oll disgyblion - i gyd yn siarad am yr un peth: llawenydd, egni, balchder.

***'Roeddwn i eisiau e-bostio i fyfyrio ar ddigwyddiad Codi Llais neithiwr ac i ddiolch i chi a phawb a gymerodd ran am brofiad mor ysbrydoledig ac effeithiol. Dros y ddwy flynedd diwethaf rydym wedi teithio i Lundain i roi cyfleoedd i'n disgyblion gymryd rhan mewn cerddoriaeth ar raddfa fwy. Yr hyn wnaeth sefyll allan yn gryf neithiwr oedd yr un egni ac uchelgais sydd gennym ar garreg ein drws. Roedd y gwaith pontio, yn dod ag ysgolion at ei gilydd trwy gerddoriaeth, yn teimlo'n ystyrlon ac yn angenrheidiol. Roeddwn i yno fel Mam yn ogystal â Phennaeth. Roedd yr un mor werthfawr gweld yr effaith ar fy nisgyblion ac ar fy merched - mae digwyddiadau fel hyn yn ehangu gorwelion.' - Pennaeth***

"Profiad na fydd y plant byth yn ei anghofio."

"Digwyddiad gwirioneddol broffesiynol, ysbrydoledig."

# ETIFEDDIAETH AC EDRYCH YMLAEN



## Etifeddiaeth i Gaerdydd

Mae Codi Llais wedi gosod y sylfeini ar gyfer rhywbeth parhaol: diwylliant cryfach o ganu mewn ysgolion, mwy o hyder ymhlith athrawon a disgyblion, cysylltiadau cryfach ar draws addysg, gwasanaethau cerdd a'r sector diwylliannol, a model ar gyfer cydweithredu ledled y ddinas ar raddfa fawr yn y dyfodol. Ond yn anad dim, roedd yn rhywbeth syml a phwerus: pan mae pobl ifanc yn cael cyfle i godi eu lleisiau - maen nhw'n ymateb i'r her.

## Edrych tua'r Dyfodol

Dim ond y dechrau yw hyn. Gyda momentwm wedi'i sefydlu a'r cyffro yn cynyddu, mae gan Codi Llais y potensial i dyfu i fod yn ddathliad blynyddol o leisiau ifanc yng Nghaerdydd — gan barhau i ysbrydoli, cysylltu a grymuso cenedlaethau'r dyfodol.



**Nid prosiect yn unig oedd Codi Lais. Roedd yn foment - yn llais a rennir - dinas yn canu gyda'i gilydd. Diolch i bob disgybl, athro, arweinydd ysgol, artist a phartner a gyfrannodd at wireddu'r weledigaeth hon. Bydd y lleisiau a godwyd yng ngwanwyn 2026 yn atseinio am flynyddoedd i ddod, gan ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i ddod o hyd i'w llais a chanu gyda hyder.**

Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru
National Music Service Wales

CARDIFF
CAERDYDD